**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 6 IONAWR 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Cenwyn ap Tomos, Beti Williams, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Siân Cwper

Mae Hanna Jones wedi penderfynu peidio â derbyn swydd fel Cynghorydd. Diolchwyd iddi am ei diddordeb yng Nghyngor Cymuned Llanfrothen.

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 4 Tachwedd 2024.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 4 Tachwedd 2024.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Glyn Griffiths

## 5. Cyflwyniad gan Sam Bannon, Cydlynydd Prosiect Heddwch ar Waith

Cafwyd cyflwyniad gan Sam Bannon ar waith Heddwch ar Waith.

Mae Heddwch ar Waith yn ceisio cynnal rhwydwaith a fydd yn meithrin cefnogaeth i gynllun Heddwch ar Waith ar lefel cymunedol awdurdodau lleol, y Senedd a San Steffan.

Sefydlwyd Heddwch ar Waith gan Gymdeithas y Cymod a CND Cymru efo'r bwriad o weithio tuag at Genedl Heddwch, gan fabwysiadu Ynadon Heddwch mewn awdurdodau lleol gan gynnwys cynghorau cymuned.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 6.1 Y Ganolfan

Ni chafwyd ymateb pellach gan y Crynwyr o ran eu diddordeb mewn defnyddio'r Ganolfan ar fore Sul.

Trefnwyd fod y lifft grisiau yn cael gwasanaeth.

### 6.2 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Cysylltwyd â'r Heddlu, ac mae swyddog o orsaf Heddlu Porthmadog yn bwriadu dod draw yn y flwyddyn newydd er mwyn mesur cyflymder yng nghanol pentref Llanfrothen.

Mae'n debyg mai cadetiaid o'r Heddlu oedd wedi bod yn y pentref yn ystod yr Hydref yn hyfforddi ar gyfer mesur cyflymder.

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd o ran gosod arwydd 20 m.y.a. ger Lodge Brondanw fel bod hi'n glir i'r rhai sydd yn ymuno efo'r A4085 yn y fan hyn fod cyfyngiad cyflymder o 20 m.y.a..

Nid oedd hi'n glir os oedd Cyngor Gwynedd wedi deall yn llawn y gofyniad, felly gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau eglurder holi ar y mater yma unwaith eto.

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon gosod arwydd glas ger y Lodge er mwyn nodi fod y ffordd i fyny am Groesor yn anaddas i gerbydau mawr, ac fe gytunwyd y byddai hyn yn syniad da.

### 6.3 Mynwent Tan Lan

Ni fu unrhyw mwy o ddifrod gan y mochyn daear.

Cyfarfu'r Cynghorydd Nia Povey efo perthnasau teulu'r bedd ble bu'r mochyn daear yn amharu ar y tywarch. Mae yna 2 fwlch yn y ffens ger y cwt, ac mae'r teulu yn awyddus i'r rhain gael eu cau.

Cytunwyd i ofyn i Gwion Evans osod ffens ble mae'r ddau fwlch.

Cytunwyd i ofyn i Dylan Edwards dorri'r fynwent ar sail yr un drefn â'r llynedd.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

### 6.4 13 Garreg Frech

Cafwyd ateb o'r diwedd gan Bennaeth Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd i'r llythyr a ddanfonwyd fis Ebrill 2024 yn holi am ddefnyddio pwerau cyfreithiol i ddod ag 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Y farn oedd nad oedd y llythyr yn ymateb yn ddigonol i'r amrywiol gwestiynau a ofynnwyd.

Yn ogystal, fe ofynnwyd i Bennaeth Adran Cyllid ddwywaith am ddiweddariad ar y broses o adennill treth cyngor ar yr eiddo ers y cyfarfod diwethaf, ond ni chafwyd ymateb.

Cytunwyd fod angen pwyso am ymateb, gan ei bod hi'n rhesymol cael diweddariad.

**6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Mae angen chwilio am grantiau ar gyfer codi'r gysgodfan fws.

Mae Cronfa Cymunedau Eryri yn bosibilrwydd, ond ni fydd yn agor tan fis Mawrth.

Nid yw cwmni Hochief sy'n claddu'r peilonau o dan yr afon Glaslyn yn debygol o fedru cynnig grantiau i gynghorau cymuned, ond gofynnwyd i'r Clerc wirio hyn.

**6.6 Casglu Arian Diffribliwyr**

Mae arian yn parhau i ddod i mewn drwy daliadau uniongyrchol Sumup i'r banc.

Bydd Y Cynghorydd Glyn Griffiths yn galw heibio er mwyn casglu unrhyw arian o'r bocs yng Nghroesor yn fuan.

**6.7 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi cerdded y llwybr efo peiriannydd sifil ac ecolegydd lleol.

Nid wy'n ymddengys y byddai yna unrhyw rwystrau ecolegaidd. Cafwyd adroddiad technegol gan y Peiriannydd Sifil.

Cytunwyd mai'r cam nesaf fyddai cael amcangyfrif o'r gost, cyn ystyried gwneud cais am grant.

Buasai'n bosibl gwneud darn cyntaf y llwybr i ddechrau. Cytunodd Y Cynghorydd Nia Povey i drafod ymhellach a gweld a fyddai'r cynllun yn gymwys ar gyfer grant o dan gynllun teithio llesol Llywodraeth Cymru.

**6.8 Coeden Eucalyptus B4410 Garreg i Rhyd**

Y mater yma wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.

Bydd angen mynd ar ôl Cyngor Gwynedd er mwyn cael ymateb.

**7. Materion Ariannol**

**7.1** Cyflog Clerc Tachwedd 2024 £239.72
TWE £59.80

**7.2** Cyflog Clerc Rhagfyr 2024 £239.72
TWE £59.80

**7.3** Costau banc hyd at 5 Tachwedd 2024 £8.00

Costau banc hyd at 5 Rhagfyr 2024 £8.00

**7.4** yu Energy Anfoneb 02084461 - £18.77

yu Energy Anfoneb 02159365 - £26.05

**7.5** Snowdonia Fire & Security Offer Tan Y Ganolfan, Anfoneb 11/10/2024 £174.00

**7.6** Dylan Edwards Anfoneb 24/11/24, torri gwair mynwent Tan Lan 2024 - £1,800.00

**7.7** Dunn & Ellis Anfoneb 18/10/24 - £65.70

**7.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 31 Hydref 2024 - £3.00

**7.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Tachwedd 2024 - £1.00

**7.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 4 Tachwedd 2024 - £15.00

**7.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Tachwedd 2024 - £5.00

**7.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Tachwedd 2024 - £8.00

**7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 11 Tachwedd 2024 - £12.00

**7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Rhagfyr 2024 - £5.00

**7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Rhagfyr 2024 - £5.00

**7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Rhagfyr 2024 - £2.50

**7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Rhagfyr 2024 - £12.00

**7.18** Balans yn y prif gyfrif 31 Rhagfyr 2024 £13,043.07

**7.19** Balans yn y cyfrif cadw 31 Rhagfyr 2024 £24,645.97

**8. Gohebiaeth**

- Cefnogi Cymunedau Cymraeg

Cytunwyd i gefnogi adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a'i argymhellion.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

- Apêl Cronfa i Bawb Urdd Gobaith Cymru

Cytunwyd i roi £100.00 i Gronfa Cyfle i Bawb 2025 yr Urdd. Mae'r gronfa yma yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc difreintiedig fedru mynychu gwersylloedd yr Urdd yn ystod yr haf.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

- Ymgynghoriad ar Ffiniau Etholaethau Senedd Cymru 2026

Cytunwyd fod yr etholaeth enfawr, yn mynd o Aberdaron i'r gororau. Y farn oedd maint yr etholaeth yn llawer rhy fawr i fedru gweithredu'n effeithiol fel aelod o'r Senedd.

Yn ogystal, roedd yr etholaeth yn cyfuno ardaloedd annhebyg ac fe fyddai yna golli cysylltiad efo'r cynrychiolwyr gwleidyddol.

**9. Cynllunio**

Ymgynghoriad cyn ymgeisio Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd – dymchwel strwythur cyfadeilad pyllau'r orsaf ynni cyn gwneud cais cynllunio.

Dim sylwadau.

Cais cynllunio NP5/68/19C, codi porth blaen, estyniad cefn llawr cyntaf to fflat ac estyniad ochr gyda balconi.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

**10. Materion Eraill**

**10.1 Praesept 2024/25**

Cytunwyd i ofyn praesept o £12,800 ar gyfer 2025/26, sef £1,500 yn ychwanegol.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

### 10.2 Ffurflen Flynyddol 2023/24

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2023/24.

### 10.3 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Bu i'r Cynghorydd Nia Povey gyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw ganol Rhagfyr.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnig 10% o unrhyw elw'r cynllun hydro am y flwyddyn

Trafodwyd y cwynion yr oedd y cyngor cymuned wedi eu derbyn am bobl yn gyrru cerbydau oddi ar y ffordd ger cynllun hydro afon Croesor. Doedd yr Ymddiriedolaeth ddim yn gweld problem yn y fan hyn, na thystiolaeth o ymddygiad anghymdeithasol..

Mae darn o'r gofgolofn yn Garreg yn dechrau dirywio, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn mynd ati i drwsio hwnnw.

### 10.4 Coeden Helyg yn tyfu ar draws y pafin ger yr hen Eglwys am Dremadog

Cytunodd Y Cynghorydd June Jones godi'r mater yma efo Cyngor Gwynedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Mawrth 2025 am 7 yr hwyr**